# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Chwefror 2017

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(09.15 - 10.45) (Tudalennau 1 - 28)

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Tracey Burke, Cyfarwyddwr, Strategaeth
Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi
Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cydraddoldeb a Ffyniant

## 3 Papurau i'w nodi

**Gohebiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches.**

(Tudalennau 29 - 36)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Egwyl (10.45 – 10.50)**

**5 Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith – trafod tystiolaeth o dan eitem 2**

(10.55 – 11.05)

**6 Senedd@Casnewydd – Trafod yr opsiynau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.**

(11.05 – 11.20) (Tudalennau 37 – 39)

**7 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches – Trafod y prif faterion**

(11.20 – 12.20) (Tudalennau 40 – 65)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau/
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-05-17 Papur 1/ Paper 1

Ein cyf / Our ref: MA-P/KS/0098/17

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ionawr 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig cyn imi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 8 Chwefror. Amgaeaf bapur tystiolaeth ar dlodi ichi ei ystyried.

Yn eich llythyr, gofynnwyd am ddiweddariad ar y themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymchwiliad blaenorol i dlodi a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a diweddariad ar yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad. Gofynnwyd hefyd am grynodeb o safbwynt Llywodraeth Cymru ar chwe maes, sef: tlodi a diwygio lles; tlodi mewn gwaith; cyllid yr UE a rhaglenni trechu tlodi; tlodi plant; monitro a gwerthuso strategaethau gwrthdlodi presennol Llywodraeth Cymru; a rôl llywodraeth leol o ran trechu tlodi. Darperir gwybodaeth am y rhain mewn atodiad i'r papur tystiolaeth.

Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth gerbron y Pwyllgor, byddaf yn fwy na pharod i drafod ein dull strategol o drechu tlodi a'r trywydd sy'n cael ei ddilyn yn fy adran fy hun i hyrwyddo cyfle economaidd i bawb. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol imi ateb cwestiynau penodol ynglŷn â'r polisïau a'r rhaglenni ym mhortffolios Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion eraill. Mae hyn hefyd yn berthnasol i argymhellion blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a themâu allweddol o adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor, lle mae portffolios eraill yn gyfrifol am y rhain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull llywodraeth gyfan o drechu tlodi. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor wahodd Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion eraill i ddarparu rhagor o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fanylion am gamau gweithredu penodol i drechu tlodi a gwella canlyniadau i aelwydydd incwm isel.

Gyda'ch caniatâd chi, hoffwn wneud datganiad agoriadol yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, a fydd yn rhoi fy nhystiolaeth yn ei chyd-destun.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

**Papur Tystiolaeth ar Dlodi: Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Mae'r papur tystiolaeth hwn yn amlinellu dull strategol Llywodraeth Cymru o greu Cymru decach gyda mwy o gyfleoedd i bawb ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Mae creu economi gref sy'n sicrhau ffyniant a diogelwch i unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn yr etholiad ym mis Mehefin 2016, ail-bwysleisiodd y Prif Weinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i economi Cymru sy'n sicrhau tegwch a chyfle.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i wella canlyniadau i bawb. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyfrifoldeb dros gydlynu camau trawsbynciol i hyrwyddo cyfle economaidd i bawb, mae trechu tlodi yn gyfrifoldeb i bob Ysgrifennydd Cabinet a phob Gweinidog. Bydd y dull hwn yn sicrhau ymgyrch gwbl drawsbynciol i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal.

Un o gryfderau sylfaenol ein dull gweithredu yw canolbwyntio ar hyrwyddo ffyniant economaidd i bawb – a chydnabod rôl arweiniol Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Mae'n adlewyrchu newid cyfeiriad i Lywodraeth Cymru a'i dull o ymdrin â thlodi. Mae'n cydnabod y rôl hanfodol y mae economi gref a mynediad i gyfleoedd cyflogaeth yn ei chwarae wrth fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru. Mae'r newid cyfeiriad hwn yn cydnabod yn llawn bod economi gref yn ysgogwr allweddol ar gyfer codi pobl allan o dlodi, ac mai economi gref yw'r ysgogiad cryfaf i gynorthwyo ffyniant economaidd.

Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gynyddu ffyniant a lleihau anghydraddoldebau. Mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni rhagor o swyddi a swyddi gwell drwy economi gryfach a thecach, bydd yn gwella ac yn diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus, ac yn meithrin Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

Bydd pedair strategaeth yn sail i *Symud Cymru Ymlaen*: Ffyniannus a Diogel, Unedig a Chysylltiedig, Uchelgais a Dysgu, ac Iach ac Egnïol. Yr uchelgais sy'n sail i'r holl strategaethau hyn yw cynorthwyo unigolion i wneud yn dda. Fel yr amlinellwyd yn Symud Cymru Ymlaen, bydd ein dull o ymdrin â datblygu cynaliadwy yn sicrhau swyddi gwell yn nes adref, yn lleihau'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael swyddi, aros ynddynt a gwneud cynnydd a gwneud yr hyn a allwn i sicrhau'r incwm mwyaf posibl i bobl.

Yn ei Strategaeth Tlodi Plant 2015, cydnabu Llywodraeth Cymru rôl sylfaenol swyddi a thwf wrth drechu tlodi – a phwysigrwydd sicrhau bod yr agenda dlodi yn cyfateb â strategaeth economaidd i Gymru. Roedd yn cynnwys dau amcan newydd ar gyfer trechu tlodi, sef: defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gadarn sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi a lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru; a chynorthwyo teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwyd. Bydd ein gwaith ar yr economi yn ysgogi cynnydd mewn perthynas â'r ddau amcan hyn.

Mae cyfrifoldebau o fewn y portffolio Economi a Seilwaith yn ganolog i ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo ffyniant a threchu tlodi. Ymhlith y rhain mae canolbwyntio ar swyddi da sy'n talu'n dda, sgiliau, seilwaith a chysylltedd.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith yn gweithio gydag Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion eraill ar faterion gan gynnwys y cyflog byw, cynyddu cyflogadwyedd, a sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl o gaffael cyhoeddus, drwy brosiectau a mentrau mawr fel y Metro. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel datblygu Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Ymhlith yr ysgogiadau y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith yn gyfrifol amdanynt mae cymorth busnes a hyrwyddo arferion busnes cyfrifol. Mae'r ysgogiadau hyn yn arbennig o bwysig i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith yng Nghymru, ynghyd â chanolbwyntio ar gyflogadwyedd, sgiliau a dilyniant a gweithio gyda chyflogwyr a'r sector preifat.

Gwyddom mai cyflogaeth yw’r llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Mae cyflogaeth yng Nghymru ar y lefel uchaf erioed bron. Rydym yn perfformio’n well na phob rhan arall o’r DU a gwelwyd y gostyngiad cyflymaf yn y gyfradd ddiweithdra dros y 12 mis diwethaf. Yn sgil camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y weinyddiaeth ddiwethaf cafodd bron 150,000 o swyddi eu creu a’u cynnal. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod angen inni wneud mwy i gynorthwyo creu a chadw swyddi sy'n galluogi'r rhai mewn tlodi i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn ffordd gadarnhaol.

Yn Adroddiad Cynnydd ar Dlodi Plant Llywodraeth Cymru 2016 (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016) cydnabuwyd y camau sydd wedi'u cymryd yng Nghymru i gynorthwyo busnesau, ysgogi buddsoddiad, hyrwyddo twf a chreu a chadw swyddi. Mae hyn wedi cynnwys cymorth i ddechrau busnesau a chymorth cyllid, cynlluniau rhyddhad ardrethi busnes wedi'u targedu a datblygu cynnig eiddo a thir cryf. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y rhai mewn tlodi (neu mewn perygl o dlodi) yn cael budd o'r cyfleoedd a wireddwyd o dwf economaidd. Byddwn yn parhau i weithio gyda busnesau i’w cynorthwyo i greu swyddi a chyflawni mwy o sicrwydd ariannol i fusnesau ac unigolion ledled Cymru. Byddwn hefyd yn ystyried rhagor o gyfleoedd i integreiddio a hyrwyddo pwysigrwydd gweithgarwch busnes cyfrifol. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda chwmnïau angori ar draws sectorau amrywiol i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf o fewn eu sefydliadau eu hunain a thrwy eu cadwyn gyflenwi.

Ochr yn ochr â'r ymgyrch i wella ffyniant economaidd i bawb, mae Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion eraill yn canolbwyntio ar ganlyniadau allweddol eraill sy'n uniongyrchol berthnasol i'r agenda dlodi – ac maent yn cadw cyfrifoldeb am agweddau penodol ar bolisi a chyflawni. Mae hyn yn cynnwys y polisïau a'r rhaglenni hynny sy'n canolbwyntio ar atal tlodi a defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i wella canlyniadau yn y blynyddoedd cynnar, cynyddu cyrhaeddiad a lleihau anghydraddoldebau addysgol, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), lleihau nifer y bobl heb waith, lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws amrywiaeth o ganlyniadau gwahanol, darparu tai fforddiadwy a hygyrch, adfywio cymunedau lleol a defnyddio caffael cyhoeddus a mabwysiadu dull sy'n darparu budd i'r gymuned o ran holl fuddsoddiad Llywodraeth

Cymru. Bydd Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion eraill yn gallu darparu rhagor o fanylion i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar yr elfennau penodol sy'n berthnasol i'w portffolios.

Mae amcanion Strategaeth Tlodi Plant 2015 a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi blaenorol Llywodraeth Cymru yn parhau i ysgogi'r agenda. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau'n gwbl ymrwymedig i ddatblygu a chyflawni polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth - ac mae gwaith wedi'i ddatblygu i wella ein dealltwriaeth o nodweddion yr aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau newydd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar amddifadedd sylweddol a thlodi bwyd, a chynnal dadansoddiad ychwanegol o ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Yn ogystal, mae Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai Llywodraeth Cymru yn cynnwys arolwg o gyflwr tai ledled Cymru yn 2017-18, yn ogystal â gwaith modelu a dadansoddi ar gyflwr tai a thlodi tanwydd.

Roedd ein Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi blaenorol yn cwmpasu'r cyfnod 2012 tan 2016. Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu ffyniant a chyfle i bawb yn cael ei gyflawni drwy'r pedair strategaeth sy'n sail i *Symud Cymru Ymlaen.* Byddwn yn ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allanol wrth inni barhau i ddatblygu a gweithredu ein dull o ymdrin â threchu tlodi – a bydd hyn yn parhau drwy gydol oes y Llywodraeth hon.

Gwyddom fod lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau yn ystyfnig o uchel a gall gynyddu dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi rhagweld y bydd tlodi plant cymharol yn y DU (cyn costau tai) yn codi o 17.1 y cant yn 2013/14 (2.3 miliwn o blant) i 25.7 y cant (neu 3.6 miliwn o blant) yn 2020-21. Bydd hyn yn rhannol yn sgil yr effaith ar incwm aelwydydd oherwydd newidiadau i bolisi llywodraeth y DU. Yn ôl y data HBAI diweddaraf, amcangyfrifir bod 29 y cant o blant, 22 y cant o oedolion o oedran gweithio a 17 y cant o bensiynwyr yn byw mewn tlodi incwm cymharol (lle mae tlodi cymharol yn cael ei gymryd i fod yn incwm is na 60 y cant o'r ganolrif y DU) ar gyfer y tair blynedd ar gyfartaledd 2012-13 i 2014-15, ar ôl costau tai wedi cael eu didynnu.
Serch hynny, mae cynnydd pwysig yn cael ei wneud mewn meysydd allweddol eraill: Mae cyflogaeth yng Nghymru bron ar y lefel uchaf erioed ac mae llai o blant nag erioed yn byw ar aelwydydd heb waith. Rydym hefyd wedi cau'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol rhwng plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys – ac rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr ysgogiadau allweddol sydd gennym i'w defnyddio yng Nghymru – mewn perthynas ag adeiladu economi gref, gwella ffyniant a chynyddu cyfranogiad pobl yn y farchnad lafur. Wrth wneud hynny, mae gennym gyfle gwell i wneud gwahaniaeth.

Mae Atodiad 1 i'r papur tystiolaeth hwn yn rhoi gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol am ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i drechu tlodi, y blaenoriaethau a nodwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a diweddariad ar y themâu allweddol a'r argymhellion penodol gan yr ymchwiliad blaenorol i dlodi (a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol).

**ATODIAD: DIWEDDARIAD AR GYFER Y PWYLLGOR CYDRADDOLDEB, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gofyn am grynodeb o safbwynt Llywodraeth Cymru ar chwe maes o ddiddordeb, sef: tlodi a diwygio lles; tlodi mewn gwaith; cyllid yr UE a rhaglenni trechu tlodi; tlodi plant; monitro a gwerthuso strategaethau gwrthdlodi presennol Llywodraeth Cymru; a rôl llywodraeth leol o ran trechu tlodi. Mae'r ddogfen ganlynol yn rhoi crynodeb byr o ddatblygiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r chwe maes hyn.

**Tlodi a diwygio lles**

Rydym yn parhau i weithio ar draws y Llywodraeth i liniaru effeithiau diwygio lles yng Nghymru. Rydym wedi helpu dros 300,000 o aelwydydd i hawlio gostyngiadau'r dreth gyngor yn llawn (ar gost flynyddol o £244 miliwn) rhwng 2013-14 a 2016-17. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y bydd y trefniadau hyn yn parhau am flwyddyn arall tan ddiwedd 2017-18. Helpodd ein buddsoddiad mewn gwasanaethau cyngor rheng flaen yn 2015-16 dros 52,300 o bobl gyda'u ceisiadau am gyngor a gwybodaeth. Darparodd y fenter hon gymorth ar ffurf hyfforddiant yn ystod 2015-16 i oddeutu 1,800 o staff rheng flaen awdurdodau lleol ar Gredyd Cynhwysol a diwygiadau lles ehangach. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i helpu pobl i gael gwaith ac rydym yn gweithio'n agos gydag Uned Gwaith ac Iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau i helpu'r rhai ag anableddau a chyflyrau iechyd, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl.

**Tlodi mewn gwaith**

Erbyn hyn, mae mwy o bobl yn dioddef tlodi mewn gwaith na nifer y bobl sydd mewn tlodi oherwydd eu bod yn ddi-waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy i drechu tlodi mewn gwaith wrth inni geisio datblygu cymorth i oedolion er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth llawn amser, gan gynyddu'r sgiliau sy'n galluogi pobl i gamu ymlaen yn eu gyrfa a mentrau i annog y rhai a allai ennill ail gyflog yr aelwyd i gael swydd. Rydym hefyd yn datblygu polisïau sy'n helpu i adeiladu economïau lleol, megis dull caffael sy'n darparu budd i'r gymuned. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allanol yn y sector preifat a sefydliadau megis TUC Cymru i ddatblygu a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth lleol o safon. Byddwn hefyd yn parhau i annog cyflogwyr yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ystyried dod yn gyflogwyr Cyflog Byw.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gofal plant wrth gynorthwyo rhieni i gael swydd ac aros ynddi. Mae darparu gofal plant yn arbennig o bwysig er mwyn inni gynorthwyo'r rhai sy'n ennill ail gyflog yr aelwyd i gael gwaith a galluogi rhieni i weithio digon o oriau i gynyddu eu hincwm, sy'n hanfodol wrth drechu tlodi mewn gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r sector gofal iechyd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Rydym wedi darparu £2.3 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol bob blwyddyn ers 2012 i'w helpu i ddarparu gofal plant hollgynhwysol y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ogystal â £4.3 miliwn dros dair blynedd ar gyfer y consortia CWLWM (sy'n cynnwys y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru) i gefnogi'r sector gofal plant a'n helpu ni i ddatblygu atebion gofal plant hyblyg, arloesol i

ddiwallu anghenion teuluoedd. Rydym hefyd wedi sicrhau £6.3 miliwn ar gyfer Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn y Gorllewin a'r Cymoedd i gefnogi'r gwaith o wella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu gofal plant presennol. Ers mis Ebrill 2016, mae darparwyr sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed yn destun prosesau rheoleiddio ac arolygu. Yr hen derfyn oedran uchaf oedd 8 oed. Yn ogystal â darparu sicrwydd i rieni ynghylch diogelu, llesiant ac ansawdd, mae'r estyniad hwn yn galluogi mwy o rieni i fanteisio ar fudd-daliadau treth a lles hefyd. Yn ogystal â'n rhaglenni gofal plant a chefnogi teuluoedd presennol, rydym wedi ymrwymo i ddarparu, yn nhymor presennol y Cynulliad, 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar am ddim i deuluoedd sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny 48 wythnos y flwyddyn. Ar 22 Medi 2016, lansiwyd ein hymgyrch #TrafodGofalPlant, sy'n ceisio cael barn rhieni, darparwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach ar ofal plant. Bydd hyn yn llywio datblygiad y cynnig, gyda chynllun peilot cychwynnol o fis Medi 2017 ymlaen. Byddwn yn asesu sut mae'r cynnig gofal plant newydd yn gweddu i raglenni presennol megis Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen i sicrhau pontio esmwyth rhwng cynlluniau. Byddwn hefyd yn ystyried datblygu'r gweithlu a chymorth busnes i ddarparwyr gofal plant.

**Cyllid yr UE a rhaglenni trechu tlodi**

Mae cyllid Ewropeaidd wedi bod yn rhan allweddol o'r gwaith o ddarparu llawer o'n rhaglenni a'n mentrau trechu tlodi sy'n helpu i liniaru effaith tlodi plant. Cyflwynodd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-2020 drechu tlodi fel thema drawsbynciol, gan sicrhau bod 20 y cant o'r cyllid yn canolbwyntio ar drechu tlodi. Mae'n rhy gynnar i ddweud sut y bydd pethau'n datblygu yn dilyn y refferendwm ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Prif Weinidog wedi galw am gyfranogiad parhaus wedi'i negodi ym mhrif raglenni'r UE tan ddiwedd 2020, er mwyn sicrhau parhad wrth i drefniadau gael eu gwneud ar gyfer y tymor hwy. O ganlyniad, rydym wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd Cymru yn gwneud cyfraniad llawn at benderfynu ar delerau ein hymadawiad a sut y byddwn yn ymgysylltu ag Ewrop yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn mynd i'r afael yn llawn â diddordebau Cymru a'n pryderon am yr effaith ar swyddi, twf a'r economi. Byddwn yn gofyn i Lywodraeth y DU esbonio sut y bydd yn darparu cyllid i gymryd lle cronfeydd sylweddol yr UE. I'r perwyl hwn, byddwn yn edrych yn fanwl ar y setliad datganoli a diwygio Fformiwla Barnett i sicrhau na fydd Cymru ar ei cholled o ganlyniad i'n hymadawiad.

**Tlodi Plant**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn gweithio ar draws y Llywodraeth i gyflawni amcanion Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2015. Ar 13 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad cynnydd statudol ar Dlodi Plant. Gellir gweld copi o'r adroddiad hwn ar dudalennau tlodi plant gwefan Llywodraeth Cymru:

http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?skip=1&lang=cy

Mae'r Adroddiad Cynnydd yn cydnabod, *yn sgil newidiadau i'r farchnad lafur a diwygiadau lles llywodraeth y DU,* nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gyflawni ei huchelgais o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Er nad oes amheuaeth ynghylch uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant, rhaid canolbwyntio ar y meysydd a'r ysgogiadau polisi hynny lle y gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar wella canlyniadau yn y blynyddoedd cynnar a chynyddu cyflogadwyedd.

**Monitro a gwerthuso strategaethau gwrthdlodi presennol Llywodraeth Cymru**

Mae rôl data, ymchwil a gwerthuso yn hanfodol wrth lywio a chyfeirio ein dull trechu tlodi. Mae'n hanfodol bod yr adnoddau a fuddsoddwn mewn polisïau a rhaglenni yn dangos eu gwerth ac yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl y maent wedi'u cyfeirio atynt. Mae dadansoddiad ychwanegol o ddata'r Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog a data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Cymru wedi'i gynnal i ddeall tlodi a bod heb waith yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio ein dull o drechu tlodi drwy ddarparu gwybodaeth werthfawr am nodweddion aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Yn ogystal, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru bellach yn cynnwys cyfres o gwestiynau ar amddifadedd sylweddol, a gymerwyd o Arolwg o Adnoddau Teulu'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd hyn yn darparu data ar amddifadedd aelwydydd a phlant, yn gwella cadernid ac ansawdd data ar dlodi yng Nghymru, yn ogystal â darparu gwybodaeth hanfodol am natur a chyfansoddiad yr amddifadedd a wynebir gan aelwydydd penodol a ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Mae maint sampl mwy Arolwg Cenedlaethol Cymru (o gymharu â'r FRS) yn golygu bod data ar amddifadedd aelwydydd a phlant hefyd ar gael ar lefel awdurdod lleol.

Bydd data o'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn cael eu defnyddio fel rhan o'r gyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol a ddefnyddir i fonitro canlyniadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd yn cynnal dadansoddiad pellach o ddata o'r Arolwg Blynyddol o Boblogaeth, sy'n rhoi gwell darlun i ni o nodweddion aelwydydd sy'n economaidd anweithgar a chymwysterau a sgiliau pobl ifanc NEET. Mae hyn yn ein galluogi i edrych ar nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith, maint teuluoedd a lefelau sgiliau rhieni sydd heb waith. Mae'r data yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r cymorth sydd ei angen i wella cyflogadwyedd a chanlyniadau sgiliau - ac i deilwra rhaglenni yn unol â hynny.

Yn olaf, bydd cynnydd o ran trechu tlodi, gan gynnwys tlodi plant, ar lefel Cymru yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r Dangosyddion Cenedlaethol sy'n ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cyfres o 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol i Gymru yn mesur cynnydd cenedlaethol tuag at gyflawni ein hamcanion a'r saith nod llesiant. Mae nifer o'r rhain yr un fath â'r dangosyddion poblogaeth sy'n cael eu defnyddio i asesu cynnydd wrth gyflawni amcanion Strategaeth Tlodi Plant 2015. Mae hyn yn cynnwys

cyrhaeddiad addysgol, nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), cyflogaeth, canlyniadau iechyd a sgiliau.

Byddwn yn adrodd ar y Dangosyddion Cenedlaethol drwy Adroddiad Llesiant Blynyddol Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro cynnydd a deall y cyfraniad mae pawb yn ei wneud. Bydd hefyd yn cefnogi dull cenedlaethol drwy Gymru o drechu tlodi.

**Rôl llywodraeth leol wrth drechu tlodi**

Bydd ein Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn parhau i gynnig y fframwaith deddfwriaethol i drechu tlodi plant yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus enwebedig (gan gynnwys pob awdurdod) i bennu amcanion i drechu tlodi plant.

Mae gennym hefyd y cyfle i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau bod y sector cyhoeddus cyfan yn gweithio mewn modd cydlynol er mwyn rhoi ar waith ein camau gweithredu i drechu tlodi yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn ymgysylltu â'r bobl yn eu hardal wrth ddatblygu Cynlluniau Llesiant. Gall pob asesiad gynnwys dadansoddiad o lesiant ar gyfer grwpiau penodol, fel y rhai sy'n agored i niwed neu'n ddifreintiedig. Mae'r dull hwn yn golygu y dylai amcanion llesiant lleol adlewyrchu anghenion pobl leol a chymunedau lleol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro'r Cynlluniau Llesiant i sicrhau bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn bodloni gofynion Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) mewn perthynas â phennu amcanion ar gyfer trechu tlodi plant.

**ATODIAD: PAPUR TYSTIOLAETH ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Mae Tabl 1 yn rhoi'r diweddaraf mewn perthynas â'r themâu a ddaeth i'r amlwg o ymchwiliadau Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad i dlodi. Mae Tabl 2 yn nodi'r argymhellion penodol a dderbyniwyd (neu a dderbyniwyd mewn egwyddor) gan Lywodraeth Cymru, pa gynnydd sydd wedi'i wneud, gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio a cherrig milltir cysylltiedig yn ymwneud â chyflawni. Mae Tabl 3 yn nodi'r argymhellion a wrthodwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi'r diweddaraf ar yr ymateb cychwynnol.

**Tabl 1:**

| **Themâu Allweddol** | **Cynnydd Llywodraeth Cymru yn 2016** |
|---|---|
| Bu diffyg cynnydd cyffredinol gan Lywodraeth Cymru wrth leihau tlodi yng Nghymru, er gwaethaf ymrwymiad a buddsoddiad hirdymor. | Mae tlodi yng Nghymru yn parhau yn ystyfnig o uchel. Mae'r data diweddaraf ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2014/15) yn dangos bod tlodi plant yng Nghymru yn 29 y cant, roedd tlodi oedolion yn 22 y cant a thlodi pensiynwyr yn 17 y cant. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynyddu incwm aelwydydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â dangosyddion allweddol eraill - gan gynnwys lleihau nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi heb waith a gwella'r canlyniadau addysgol i blant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. |
| Mae dull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi yn ymdrin â chanlyniadau tlodi, yn hytrach na mynd i'r afael â'i achosion. | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd mynd i'r afael ag achosion tlodi. Gan adlewyrchu lle mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym y gallwn gael yr effaith fwyaf, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cynyddu cyflogadwyedd a gwella canlyniadau yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r ddwy flaenoriaeth hyn yn ymwneud ag atal tlodi a mynd i'r afael â'i achosion sylfaenol. Gwyddom fod aelwydydd heb waith mewn perygl o fyw mewn tlodi a bod plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn fwy tebygol o gael canlyniadau iechyd ac addysgol gwaeth. Mae cynyddu cyflogadwyedd person yn lleihau'r risg y bydd unigolyn yn ddi-waith am gyfnod hir. Mae cynyddu cyflogadwyedd hefyd yn cynorthwyo pobl sydd eisoes yn gweithio drwy gynorthwyo pobl i gynyddu eu sgiliau a gwneud cynnydd mewn cyflogaeth. Mae gwella canlyniadau yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i drechu tlodi yn y tymor hwy. Mae cynorthwyo plant i sicrhau canlyniadau datblygiadol ac iechyd yn y blynyddoedd cynnar yn arbennig o bwysig.<br><br>Hefyd, bu pwyslais parhaus ar wella deilliannau addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Mae hwn yn un o'r ysgogiadau allweddol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag atal tlodi, oherwydd gwyddom fod deilliannau addysgol yn rhagfynegydd pwysig o ddeilliannau sy'n ymwneud ag incwm, cyflogaeth, iechyd a llesiant pan fydd pobl yn oedolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhagori ar y targed a bennwyd ganddi ar gyfer cyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn y Cyfnod Sylfaen. Cyrhaeddodd cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a gyflawnodd Lefel 2 |

| | |
|---|---|
| | (gan gynnwys mathemateg a Chymraeg / Saesneg) y lefel uchaf erioed yn 2016. |
| Mae rhaglenni lleihau tlodi Llywodraeth Cymru wedi'u targedu'n sylweddol tuag at leoedd penodol, a cheir rhagdybiaeth bod y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn yn unffurf. | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cael cymysgedd o raglenni wedi'u targedu at leoedd penodol a rhaglenni sydd ar gael ledled Cymru.<br><br>Nid yw mwyafrif y rhaglenni sy'n ceisio trechu tlodi yn seiliedig ar ardaloedd ac mae cymhwystra wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n bodloni meini prawf penodol yn seiliedig ar anghenion. Mae hyn yn cynnwys Teuluoedd yn Gyntaf a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at y ffaith nad yw aelwydydd sy'n byw mewn tlodi yn cael eu cynorthwyo gan raglenni trechu tlodi yn unig. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â digartrefedd ac angen o ran tai. Wrth wneud hyn, mae gweithwyr rheng flaen yn cynorthwyo llawer o aelwydydd sy'n wynebu tlodi neu mewn perygl o dlodi. Mae mynediad i wasanaethau prif ffrwd hefyd yn hanfodol i aelwydydd incwm isel ac mae'r rhain yn wasanaethau nad ydynt wedi'u targedu'n ddaearyddol.<br><br>Mae gan raglenni eraill fel Cymunedau yn Gyntaf, Esgyn, Cymunedau am Waith (C4W) a PaCE ganolbwynt daearyddol. Mae hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio'n benodol ar feysydd â lefelau uchel o anweithgarwch economaidd a diweithdra. Mae gan raglenni cyfalaf ganolbwynt daearyddol hefyd, fel Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sy'n ceisio adfywio cymunedau. Mae hefyd yn bwysig myfyrio ar anghenion cymunedau gwledig – ac mae Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ERDF bellach yn cynnwys canolbwynt penodol ar drechu tlodi.<br><br>Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd wedi cydnabod nad yw'r bobl a'r cymunedau yn y cymoedd yn unffurf ac y bydd anghenion cymunedau gwahanol yn amrywio. Mae'r tasglu wedi nodi nifer o flaenoriaethau allweddol gan gynnwys swyddi a sgiliau, ymgysylltu cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus. |
| Mae angen data mwy cadarn ar Lywodraeth Cymru am bobl sy'n byw mewn tlodi er mwyn iddi allu targedu ei hadnoddau at y rhai â'r angen mwyaf. | Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru bellach yn cynnwys cwestiynau ar amddifadedd sylweddol a thlodi bwyd, gyda'r bwriad o ddeall nodweddion aelwydydd incwm isel yn well. Gwnaed dadansoddiad pellach hefyd o ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2016. Yn ogystal, gwnaed dadansoddiad o ddata o arolygon fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i lywio datblygu Cynllun Cyflogadwyedd newydd i Gymru.<br><br>I lywio blaenoriaethau cychwynnol y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd, mae adolygiad tystiolaeth o fentrau adfywio wedi'i gynnal ochr yn ochr â dadansoddiad manwl o'r data ar gyfer dangosyddion allweddol. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion ar aelwydydd heb waith, cyrhaeddiad addysgol, sgiliau, cyflogaeth, iechyd a llesiant.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi parhau i ymgysylltu â'r Ganolfan What Works for Tackling Poverty, sy'n fenter a ariennir gan Brifysgol Caerdydd a'r Cyngor Ymchwil |

| | |
|---|---|
| | Economaidd a Chymdeithasol. Mae canfyddiadau o'r pedwar prosiect a ariannwyd gan y Ganolfan yn parhau i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys Adroddiad Sefydliad Young "Credu mewn credyd?" ar gredyd cost uchel yng Nghymru, sydd wedi'i ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016. |
| Mae angen gwella'r broses o fonitro a gwerthuso effaith a chynnydd rhaglenni tlodi yn sylweddol. | Yn y gwerthusiad o Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2014 cydnabuwyd pwysigrwydd gwerthuso polisïau a rhaglenni penodol sy'n sail i'r strategaeth er mwyn deall yn well y cyfraniad y mae haenau gwahanol yn ei wneud at amcanion cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i fonitro a gwerthuso effaith rhaglenni trechu tlodi. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso canlyniadau rhaglenni fel Esgyn a Cymunedau am Waith.<br><br>Mae Adroddiad Cynnydd Statudol Llywodraeth Cymru ar Dlodi Plant yn benodol yn cynnwys data ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae hyn yn cynnwys data perfformiad ar raglenni trechu tlodi, yn ogystal â gwasanaethau eraill sy'n cynorthwyo teuluoedd ar incwm isel.<br><br>Bydd y polisïau a'r rhaglenni sy'n sail i'r Rhaglen Lywodraethu newydd yn cynnwys pwyslais cryf ar werthuso a dysgu o bolisïau sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu ledled Cymru. |
| Mae angen cysylltiad cryfach rhwng polisi economaidd a threchu tlodi, a dealltwriaeth well o ochr sgiliau isel y farchnad lafur. | Roedd Strategaeth Tlodi Plant 2015 yn cynnwys amcan newydd ar ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i adeiladu economi gref sy'n cefnogi'r agenda dlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu i gyflawni'r amcan hwn. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu mewn perthynas â chaffael cyhoeddus, y cyflog byw, swyddi a thwf, a datblygu Cynllun Cyflogadwyedd newydd i Gymru er mwyn cynorthwyo pobl i gael cyflogaeth ac aros a gwneud cynnydd yn y gyflogaeth honno.<br><br>Bydd pedair strategaeth newydd yn sail i Symud Cymru Ymlaen, ac un ohonynt yw *Ffyniannus a Diogel.* |
| Gallai'r grwpiau cynghori, sy'n cynnwys pobl wahanol, at ddibenion gwahanol, gael eu symleiddio yn un ffynhonnell gyngor awdurdodol. | Yn 2016, cynhaliodd swyddogion adolygiad o grwpiau cynghori presennol Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o leihau dyblygu.<br><br>Roedd y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi yn weithredol tan fis Tachwedd 2016. Parhaodd y Grŵp i ddarparu cyngor arbenigol mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi drwy gydol y flwyddyn. |
| Mae'r seilwaith sydd yn ei le i drechu tlodi yng Nghymru yn gymharol dda, ond ceir diffyg dealltwriaeth o dlodi a sut y mae'n effeithio ar bobl. | Drwy gydol 2016, bu canolbwynt cryf ar ymgysylltu â chymunedau i ddeall y materion y maent yn eu hwynebu, mewn perthynas â threchu tlodi. Mae nifer o ymgyrchoedd ymgysylltu wedi'u datblygu wrth i bolisïau a rhaglenni newydd gael eu datblygu. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrchoedd ymgysylltu sydd wedi canolbwyntio ar y cynnig gofal plant newydd ac adeiladu cymunedau cydnerth.<br><br>Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd hefyd wedi |

| | |
|---|---|
| | cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned mewn modd diffuant ac mae wedi nodi hyn fel un o’i flaenoriaethau cychwynnol. |

**Tabl 2: Argymhellion Penodol – Derbyniwyd a derbyniwyd mewn egwyddor**

| **Argymhelliad** | **Cynnydd yn 2016** | **Gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio a cherrig milltir cyflawni** |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 2:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y camau g weithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Astudiaeth 'Lle Dwfn', Tredegar.**<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.** | Clywodd aelodau o'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd dystiolaeth gan un o awduron yr Astudiaeth 'Lle Dwfn' o Dredegar (Dr Mark Lang) yng nghyfarfod cyntaf y Tasglu ym mis Medi 2016. Mae swyddogion hefyd wedi ystyried y canfyddiadau o'r Astudiaeth 'Lle Dwfn' o Bont-y-pŵl a gyhoeddwyd y fwy diweddar a gynhaliwyd gan Dr Mark Lang. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag awduron yr astudiaeth ac mae gennym ddiddordeb penodol yn y fethodoleg. | Mae argymhellion o'r Astudiaeth 'Lle Dwfn' ddiweddar o Bont-y-pŵl yn cael eu hystyried a bydd camau gweithredu cysylltiedig yn cael eu datblygu yng nghwmpas Tasglu'r Cymoedd. |
| **Argymhelliad 3:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu diffiniad clir o dlodi. Awgrymwn fod y diffiniad yn seiliedig ar fesur a yw adnoddau person yn ddigonol i ddiwallu ei anghenion dynol sylfaenol, ac i gael safon byw dderbyniol sy'n ei alluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas.**<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.** | Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi plant wedi'i nodi yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2015. Mae tlodi yn cael ei ddiffinio fel:<br><br>*"Cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaethau a mannau agored deniadol) mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn."*<br><br>Rydym yn parhau i fonitro tlodi plant gan ddefnyddio'r mesur incwm cymharol o dlodi a'r gyfres ehangach o ddangosyddion sy'n sail i Strategaeth Tlodi Plant 2015. | Mae nifer o ddangosyddion Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru hefyd yn ddangosyddion sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2016, cydnabu Llywodraeth Cymru na fyddai'n cyflawni ei huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gall gael yr effaith fwyaf. Bydd cynnydd wrth drechu tlodi ar lefel Cymru yn cael ei fesur drwy ddefnyddio Dangosyddion Cenedlaethol sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Argymhelliad 4:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad yn ei strategaeth trechu tlodi i sicrhau bod gan bob person yng Nghymru fwyd, lloches a chynhesrwydd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau manwl a thargedau ar gyfer tlodi bwyd, tlodi tanwydd a** | *Tlodi Bwyd:* Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â'r Gynghrair Tlodi Bwyd. Mae Symud Cymru Ymlaen yn cynnwys ymrwymiad newydd i sicrhau bod plant ysgol yn cael eu cynorthwyo yn ystod gwyliau'r ysgol drwy raglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â "newyn gwyliau". | *Tlodi Bwyd:* Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cyllid o £500,000 yn mynd tuag at glybiau hwyl a chinio ysgol yn ystod gwyliau'r haf. Bydd yr arian yn cael ei gynnig i gynghorau yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru i helpu i ddarparu cynlluniau chwarae a phrydau bwyd dros y gwyliau hir. |

| | | |
|---|---|---|
| **digartrefedd.**<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn Egwyddor.** | *Tlodi Tanwydd:* Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynllun tlodi tanwydd newydd yn ddiweddar. Mae Ysgrifenyddion y Cabinet wedi cytuno i gyllido'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai Rhaglen o fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau'r data a'r dadansoddi sydd eu hangen i lywio penderfyniadau nawr ac yn y dyfodol mewn perthynas â thai domestig ac effeithlonrwydd ynni a mesurau tlodi tanwydd.<br><br>*Tai:* Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai pawb gael mynediad i gartref o ansawdd da. Dyma pam rydym yn parhau i flaenoriaethu darparu tai fforddiadwy, ochr yn ochr â chymorth ar gyfer deiliadaethau eraill.<br><br>Mae'r Ddeddf Tai yn cynnwys canolbwynt penodol ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda'r nod o fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. | *Tlodi Bwyd:* Mae'r Rhaglen Tystiolaeth Cyflwr Tai yn cynnwys arolwg o gyflwr tai ledled Cymru yn 2017-18, gwaith modelu a dadansoddi ar gyflwr tai a thlodi tanwydd a datblygu a chynnal "cronfa sylfaen anheddau" er mwyn darparu tystiolaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu camau gweithredu i gynorthwyo teuluoedd ar incwm isel ar hyn o bryd. Un o amcanion Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yw cynorthwyo aelwydydd i gynyddu incwm eu haelwyd drwy fynd i'r afael â'r premiwm tlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles.<br><br>*Tai:* Yn ystod y weinyddiaeth ddiwethaf rhagorwyd ar ein targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy. Yn ystod tymor y llywodraeth hon rydym wedi ymrwymo i gyflwyno 20,000 o gartrefi, a fydd yn cynnwys cymorth sylweddol ar gyfer tai cymdeithasol gan fod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.<br><br>Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £7.8 miliwn ar gyfer y Rhaglen Atal Digartrefedd 2017/18. Mae'r grant yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau rheng flaen i atal digartrefedd. Mae'n helpu pobl y mae digartrefedd yn effeithio arnynt drwy ddarparu lloches nos, hostelau, gwaith allgymorth, cynlluniau cyfryngu a bondiau yn ogystal â darparu rhwydwaith sylweddol o wasanaethau cynghori. |
| **Argymhelliad 5:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn** | Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu cyhoeddiad diweddar Strategaeth Gwrthdlodi | Bydd polisi Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei lywio gan waith ymchwil parhaus a |

| | | |
|---|---|---|
| **comisiynu ymchwil sy'n gwella'n sylweddol ansawdd, cwmpas a graddau'r data am dlodi yng Nghymru. Dylai'r ymchwil hon sefydlu pa grwpiau o bobl yng Nghymru sy'n debygol o fod yn byw'n anghymesur mewn tlodi, a nodi'r gyfres o ymyriadau sy'n gweithio orau i wahanol bobl, yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach nag ar si.**<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn Egwyddor.** | Sefydliad Joseph Rowntree a'i Fframwaith Gweithredu ar gyfer Cymru.<br><br>Mae cwestiynau newydd ar amddifadedd aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol newydd ac mae dadansoddiad ychwanegol wedi'i gynnal o ffynonellau data allweddol, gan gynnwys data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru. | dadansoddi data ar dlodi ac aelwydydd incwm isel.<br><br>Mae'r Tîm Trechu Tlodi yn cael ei gefnogi gan gydweithwyr mewn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a fydd yn parhau i ddadansoddi data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru ac arolygon eraill.<br><br>Fel y nodwyd ar gyfer yr argymhelliad blaenorol, bydd arolwg hefyd o gyflwr tai ar draws Cymru yn 2017-18.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Sefydliad Joseph Rowntree a'i raglen ymchwil ar dlodi, a chyda'r Ganolfan What Works for Tackling Poverty a sefydlwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. |
| **Argymhelliad 6:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o strategaeth datblygu economaidd glir, yn egluro sut y mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'i pholisïau a'i hymyriadau ar gyfer trechu tlodi.**<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn Egwyddor.** | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar un o amcanion allweddol Strategaeth Tlodi Plant 2015, sef creu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda dlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru. | Bydd pedair strategaeth newydd yn sail i Symud Cymru Ymlaen, ac un o'r rhain yw *Ffyniannus a Diogel* – a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar wella ffyniant economaidd i bawb a bydd yn gyson â'r agenda trechu tlodi. |
| **Argymhelliad 7:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei dylanwad ar y rhan honno o'r farchnad lafur lle mae'r sgiliau'n isel (yn enwedig y sectorau gofal, manwerthu a lletygarwch), drwy brosesau caffael ac arian grant, er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl sy'n dioddef tlodi mewn gwaith. Mae angen gwneud hyn ar y cyd â'r sector preifat drwy wella'r ymwneud â'r sector.**<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.** | Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei chynllun cyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar ad-drefnu'r cymorth i unigolion sy'n barod am waith, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, fel y gallant ennill y sgiliau a dal eu gafael ar gyflogaeth gynaliadwy.<br><br>Mae cynyddu cyflogadwyedd a chanolbwyntio ar swyddi a sgiliau hefyd yn un o flaenoriaethau'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd. Mae defnyddio caffael ac amodau cyllid grant i gynorthwyo'r agenda hon wedi'i nodi fel ysgogiad polisi | Caiff y Cynllun Cyflogadwyedd ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2017. Bydd y Cynllun Cyflogadwyedd yn defnyddio ein hysgogiadau caffael i greu cyfleoedd cyflogaeth wedi'u targedu ar gyfer grwpiau difreintiedig. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r cynllun peilot Swyddi Gwell yn Nes Adref er mwyn profi sut y gallem ddefnyddio polisi caffael i ysgogi twf economaidd a ffyniant mewn ardaloedd o anfantais drwy ddefnyddio dulliau cyflogaeth.<br><br>Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi ymrwymiad parhaus |

| | | |
|---|---|---|
| | allweddol i Lywodraeth Cymru.<br><br>Ceir cydnabyddiaeth gref bod "buddsoddiadau unwaith mewn oes" (fel y Metro, dinas-ranbarthau a chytundebau dinas) yn darparu swyddi a thwf ac yn trechu tlodi. Cefnogaeth gynyddol ar gyfer y dull sy'n darparu budd i'r gymuned.<br><br>Mae Symud Cymru Ymlaen yn cynnwys ymrwymiad i gyflawni Swyddi Gwell yn Nes Adref.<br><br>Mae ymgysylltu â'r Sector Preifat wedi parhau drwy gydol 2016. Cynhaliwyd ail Uwchgynhadledd Trechu Tlodi yng ngogledd Cymru ac mae swyddogion wedi parhau i ymgysylltu â'r sector preifat wrth i waith fynd rhagddo ar Gynllun Cyflogadwyedd newydd i Gymru. Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar ddechrau 2017 – gan roi cryn sylw i ymgysylltu â'r sector preifat a gweithio gyda'r sector preifat. | Llywodraeth Cymru i'r Cyflog Byw. Mae ein ffocws yn parhau ar y gyfradd Cyflog Byw fel y'i cyfrifir gan y Sefydliad Cyflog Byw – ac nid y gyfradd Cyflog Byw Cenedlaethol is a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU.<br><br>Rydym yn cydnabod yn llawn y rôl y gall caffael ei chwarae i gynorthwyo mabwysiadu'r Cyflog Byw yn ehangach. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn ymgynghori ar ddatblygu Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, sy'n trafod sut y gall awdurdodau contractio ystyried pecynnau gwaith teg, gan gynnwys y Cyflog Byw, fel rhan o'r broses gaffael. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag derbyn cyfleoedd cyflogaeth, neu'n eu hatal rhag derbyn mwy o oriau, i gynorthwyo twf cynhwysol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ddatblygu sgiliau, hyrwyddo arferion busnes cyfrifol fel trefniadau gweithio hyblyg a datblygu'r farchnad gofal plant. |
| **Argymhelliad 8:**<br>**Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pwyso am ddatganoli'r Rhaglen Waith, fel bod helpu pobl i gael gwaith yn seiliedig ar wybodaeth leol ac yn canolbwyntio ar bobl sydd bellaf o'r farchnad. Dylai hyn ddarparu atebion wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl, yn enwedig menywod a phobl anabl.**<br><br>**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor.** | Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyd-ddylunio Rhaglen Gwaith ac Iechyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae disgwyl i'r rhaglen, a fydd yn disodli'r Rhaglen Waith. gael ei chyflwyno ym mis Hydref 2017. Er bod y contract yn parhau'n un o gyfrifoldebau'r Adran Gwaith a Phensiynau, ceir ymrwymiad i Lywodraeth Cymru a Chytundeb Dinas Caerdydd gyfrannu'n weithredol at reoli perfformiad pan fydd ar waith. Mae'r contract wedi'i fwriadu i barhau am 5 mlynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall unrhyw benderfyniad i ddechrau trafodaethau o amgylch datganoli rhaglenni cyflogaeth gael ei ddatblygu. | Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gysoni gwasanaethau yn well. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ymgorffori darpariaeth gwasanaeth iechyd i gymorth cyflogaeth yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gan y Rhaglen Gwaith ac Iechyd yn ogystal â'r cynigion yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd drwy Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru y DU, *Improving Lives*, gysylltiadau clir â'r Cynllun Cyflogadwyedd newydd a datblygiadau ar gyfer rhaglen gyflogadwyedd i bob oedran. | |
| **Argymhelliad 9:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i annog mwy i hawlio'u budd-daliadau, fel y Credyd Pensiwn a'r Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru.**<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn Egwyddor.** | Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo nifer o fentrau sy'n ceisio cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau fel y prosiect Cyngor Da, Byw'n Well a gynhelir gan Cyngor ar Bopeth.<br><br>Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r Gronfa Cymorth Dewisol yn fudd-dal lles. Mae'n gynllun dewisol sy'n dyrannu ar sail cymhwystra ac ar adegau penodol o angen. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Cymorth Dewisol, gyda'r bwriad o gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio arni ymhlith rhai grwpiau agored i niwed a all fod yn gymwys ar gyfer Taliadau Cymorth i Unigolion y Gronfa Cymorth Dewisol. | Bydd y contract newydd i reoli'r Gronfa Cymorth Dewisol am y tair blynedd nesaf (i'w ddyfarnu cyn bo hir) yn dechrau ar 1 Ebrill 2017. |

**Tabl 3: Argymhellion Penodol – Gwrthodwyd**

| **Argymhelliad** | **Sefyllfa Bresennol** |
|---|---|
| **Argymhelliad 1:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cynghrair Lleihau Tlodi Cymru, a fydd yn cynnwys Gweinidogion a swyddogion (gan gynnwys Llywodraeth Leol), ynghyd â'r trydydd sector, a'r sectorau preifat ac academaidd. Dylai hefyd gynnwys cynrychiolaeth pobl sy'n byw mewn tlodi. Dylai'r grŵp hwn fod yn sail i ddatblygu polisïau arloesol,** | Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr argymhelliad hwn wedi newid.<br><br>Mae trechu tlodi bellach yn fater trawslywodraethol gyda phob Ysgrifennydd Cabinet a Gweinidog yn gyfrifol am leihau tlodi. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid allanol i ddatblygu a gweithredu ein dull o drechu tlodi.<br><br>Drwy gydol 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â chymunedau lleol ar nifer o bolisïau a rhaglenni allweddol sy'n sail i'n dull o drechu tlodi. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymgysylltu mewn rhain o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru drwy ymgyrchoedd fel #TrafodyCymoedd, # TrafodCymunedau a #TrafodGofalPlant. |

| | |
|---|---|
| **gweithredu a chraffu'n barhaus ar lefelau tlodi yng Nghymru.**<br><br>**Ymateb: Gwrthod** | Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried barn plant a phobl ifanc wrth ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a phenderfyniadau Gweinidogol. Mae *Plant yng Nghymru* wedi cael cyllid o dan y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd i ddatblygu rhaglen o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried. |
| **Argymhelliad 10:**<br>**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y meini prawf cymhwystra ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael eu llacio, er enghraifft drwy beidio â gofyn i bobl wneud cais am fenthyciad cyllidebu cyn gwneud cais am gymorth o'r Gronfa. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod y dyraniad gwreiddiol o £10.2 miliwn ar gyfer y Gronfa yn cael ei adfer.**<br><br>**Ymateb: Gwrthod** | Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr argymhelliad hwn wedi newid.<br><br>Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn parhau'n gynllun seiliedig ar alw sy'n cynorthwyo'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Yn hynny o beth, mae'n briodol y dylai ymgeiswyr ystyried yr opsiwn o drefnu benthyciad cyllidebu cyn gwneud cais i'r Gronfa.<br><br>Mae cyllideb y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer 2016-17 wedi cynyddu i £8.657 miliwn. Byddwn yn parhau i adolygu'r galw am hyn. |

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau/
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-05-17 Papur 2/ Paper 2

WLGA • CLlLC

**Date/Dyddiad:** 2nd February 2017
**Please ask for/Gofynnwch am:** Naomi Alleyne
**Direct line/Llinell uniongyrchol:** 029 2046 8660
**Email/Ebost:** naomi.alleyne@wlga.gov.uk

Mr John Griffiths AM
Chair, Equality, Local Government and Communities Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear John

Thank you for your letter dated 25th January 2017 seeking further information as part of the Committee's Inquiry into Asylum Seekers and Refugees in Wales.

In response to the queries raised in the letter, the following information is provided:

- Local authorities provide a range of environmental and regulatory services, which aim to make our communities safe places to live, work and visit. This includes undertaking inspections of privately rented homes to ensure they meet appropriate Standards and Regulations. While local authorities would have the power to inspect private sector properties used by Clearsprings to accommodate asylum seekers, there is no systematic plan in place to do so and we are not aware that such an approach has ever been requested, for example, in Swansea 'spot checks' are undertaken by Environmental Services on properties procured to accommodate asylum seekers with recommendatiopns to imrpvoe made as appropriate however resources are limited to undertake these chekcs as ofen as they woud wish to do so. Authorities are able to respond to concerns raised or complaints made and recommend improvements or undertake enforcement activity should it be required. While funding for environmental and regulatory services are provided by Welsh Government as part of the Block Grant for local government, no specific funding

Steve Thomas CBE
Chief Executive
Prif Weithredwr

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

www.wlga.wales

has been earmarked with a view to inspecting accommodation used for asylum seekers.


It should also be noted that any private landlords that rent their properties should be registered with Rent Smart Wales, and any Agents that landlords use must also be registered.

- When asked to assess a property that Clearsprings wishes to procure, the local authority will consider the location of the property and in particular, any reasons why the property should not be procured to accommodate asylum seekers (e.g. whether there are or have been recent community tensions that could affect asylum seekers; appropriate places in local schools if needed etc). There is also internal liaison with other parts of the authority and environmental health services will also consider any information they have available to them about the property as to its suitability (for example, in relation to housing standards and compliance with regulations). Local authorities work closely with Clearsprings when potential properties have been identified and their agreement is needed before the property is procured. The Wales Strategic Migration Partnership have developed a Property Procurement Consultation Form which is used by Clearsprings to consult with local authorities and other partners on procurement (copy attached at Appendix 1).

- Local authorities are not involved in the awarding of asylum accommodation contracts as this is done by the Home Office following a competitive process. While the Home Office engages with local authorities and other stakeholders when developing their approach to the provision of asylum accommodation, the awarding of contracts is the role of the Home Office. A recent early engagement event was held with local authorities, organised by the Home Office, ahead of the renewal of contracts in 2019 where discussions centred on how the contracts could operate and whether there are any different models of accommodation provision that could be considered. We understand similar events were held across different parts of the UK and the outcome of these discussions has been collated by the Home Office.

I hope this information is of use to you and the Committee and if you require further information please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely



**Naomi Alleyne**
Director, Social Services and Housing

## Appendix 1

## Property Procurement Consultation for Asylum Properties

(To be returned to property@clearsprings.co.uk within 5 working days of request date (10 for bail level 2/3 properties) – this is a target date)

*To be completed by Clearsprings Ready Homes*

**Property Address:**

**Property Use:**

**Families** ☒
**Singles** ☐
**Level 1 Bail** ☐
**Level 2 Bail** ☐ **(if selected a wider debate on bail accommodation may be required)**
**Level 3 Bail** ☐ **(if selected a wider debate on bail accommodation may be required)**

**New Property** ☒
**Replacement** ☐

**Address of Property Being Replaced**

**Termination date**

**Change of use** ☐ **From** ___ **to** ___
**Variation of Use** ☐ **From** ___ **to** ___

| | |
|---|---|
| **Number of Bed spaces** | |
| **Number of Bedrooms** | |
| **Property Type** | |
| **Own Entrance (y/n)** | |
| **Shared Communal Areas (y/n)** | |
| **Date Requested:** | |

*To be completed by Local Authority*

**Local Authority:** [ ]

**Concern: YES** ☐ **NO** ☐

**Location Concerns** ☐ **Community Cohesion** ☐ **Other** ☐

**Please provide any additional notes or restrictions.**

[ ]

# Approved for use YES ☐ NO ☐

*To be completed by Police*

**Police:**

**Concern YES ☐ NO ☐**

**Concern Regarding:**

**ASB ☐ Hate Crime ☐ Community Cohesion ☐ Other ☐**

**Please provide any additional notes or restrictions.**

# Approved for use YES ☐ NO ☐

**Other Concerns:**

Note: only Police and LA can refuse a property, all other concerns will be taken into account but may not result in a refusal.

**Education:**

**Admissions** ☐ **Language Support** ☐ **Other:** ☐

**Comments:**

| |
|---|
| |

**Health:**

**GP Case Load** ☐ **Available Local Resources** ☐ **Other:** ☐

**Comments:**

| |
|---|
| |

**Property Procurement Consultation Form Guidance**

To ensure the safe and successful procurement of temporary accommodation for Asylum Seekers the attached screening tool will be completed by all the named partners within 5 working days and returned to Clearsprings Ready Homes.

1. Request completed by Clearsprings, detailing address and usage of property to Local Authority SPOC (Single point of contact)
2. SPOC will confirm receipt of request and coordinate information from department leads and return to property@clearsprings.co.uk within 5 working days
3. SPOCs from Police and Local Authority will share any concerns via the form with each other prior to returning their response.
4. If either the Local Authority and/or Police identify initial concerns or restrictions, please note them in the relevant section.
5. Clearsprings will inform the local authority if procurement is successful


The WLGA welcomes correspondence in Welsh or English - Mae WLGA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
Printed on recycled paper - Wedi'i argraffu ar bapur eildro

| Bail Case Definitions: | | |
|---|---|---|
| **Level 1** | **Level 2** | **Level 3** |
| False instrument<br>Theft without aggravation<br>Motoring offence<br>One off violent occurrence<br>Public disorder - Minor<br>Non - MAPPA only | GBH / ABH<br>Sexual offence with adults<br>Supply and production of drugs<br>Armed robbery<br>Violence<br>Kidnap - can also be level 3 depending on the circumstances of the offence | Applicants who cannot be accommodated near schools / local amenities<br>Extreme violence<br>Rape on a minor<br>Exceptionally serious convictions – normally dealt with on a case by case basis |

**Key Contacts:**
**Clearsprings:**
Clearsprings Ready Homes Property Dept. - Property@clearsprings.co.uk
Tel - 01268 740200 (automated option 3)

**Police:**
SPOC:
For Community Safety information:

**Local Authority:**
SPOC:
For Housing Enforcement information:
For Housing/ASB/Hate Crime information:
For Education information:
For School Admissions:

**Home Office:**
Lawrence Williams - Lawrence.Williams@homeoffice.gsi.gov.uk – Tel: 077 6855 7641


The WLGA welcomes correspondence in Welsh or English - Mae WLGA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
Printed on recycled paper - Wedi'i argraffu ar bapur eildro

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon